# Yr her:

Wel, mae'r Nadolig wedi mynd a'r flwyddyn newydd wedi cyrraedd. Gobeithio eich bod wedi mwynhau cyfnod y Nadolig gyda'ch teulu a bod Siôn Corn wedi bod yn garedig unwaith eto! Mae hi'n dymor y Gaeaf ac mae'r tywydd wedi oeri tipyn yn ddiweddar. Gobeithio byddwch yn mwynhau cwblhau'r gweithgareddau isod yn ystod y pythefnos nesaf.



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Beth oedd eich hoff anrheg oddi wrth Sion Corn?
- Pa gem wnaethoch chi fwynhau chwarae gyda'r teulu?
- Beth wnaeth i chi chwerthin/teimlo'n drist yn ystod cyfnod y Nadolig?
- Beth ydych chi'n edrych ymlaen at fwyaf y flwyddyn yma?

# Y Gaeaf (Meithrin/Derbyn)

## Rhaid gwneud...

| | | |
|---|---|---|
| • Adnabod llythrennau wyddor<br>• Ymarfer ffurfio llythrennau'r wyddor<br>• Ymarfer ffurfio enw/cyfenw<br>• Darllen yn reolaidd– darllen a gwrando ar storïau Ymarfer canu caneuon / hwiangerddi | • Ymarfer adnabod rhifau<br>• Ymarfer ffurfio rhifau<br>• Adrodd rhifau yn eu trefn – ymlaen ac yn ôl<br>• Adio a thynnu ymarferol | • Joe Wicks - sesiynau ar 'You Tube' 9am (Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>• Cosmic Kids Yoga – sesiynau ar 'YouTube'<br>• Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>• Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd. |

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Ydych chi'n gallu meddwl am eiriau sy'n ymwneud a'r Gaeaf e.e. eira, rhew, oer, iâ, dyn eira, robin goch. Ewch ati i dynnu llun rhai o'r pethau yma ac yna copio/ ysgrifennu'r geiriau cywir o dan bob llun. | Ewch ati i greu dyn eira gan ddefnyddio siapiau gwahanol. Ydych chi'n gallu enwi'r siapiau yma? Beth am greu set o ddynion eira- rhai mawr, rhai canolig a rhai bach. Allwch chi eu trefnu gan ddechrau gyda'r mwyaf i'r lleiaf? | Ewch ar wefan caneuon Cyw a chanu cân Dawns y Plu Eira. Beth am wneud symudiadau fel plu eira i gyd-fynd gyda'r gân. Beth am berfformio'r gân i aelodau eraill o'r teulu? |
| Allwch chi greu rhestr o ddillad addas sydd angen arnom i fynd allan yn y Gaeaf e.e het/ sgarff/ menig/siwmper/cot ayyb. Trafodwch gydag oedolyn eich hoff ddillad ar gyfer y Gaeaf | Ewch ati i gasglu data gydag oedolyn am yr adar sy'n ymweld â'r ardd neu a welsoch chi wrth fynd am dro. Pa liw ydy'r adar? Ydych chi'n gallu rhifo'r adar? Beth am greu graff syml i ddangos sawl aderyn a welsoch. | Ewch ati i beintio/lliwio/ creu collage o ddyn eira i arddangos yn y tŷ. Beth am ailgylchu deunyddiau i greu collage neu beth am ddefnyddio potel llaeth gwag i greu dyn eira. |
| Beth am fynd a'r helfa llythrennau? Faint o bethau allwch chi ddarganfod yn y tŷ/yr ardd sy'n dechrau gyda'r llythrennau m, a, c, p, t, d, i, n, o, l, b, f, h, e, s? Allwch chi ffurfio'r rhai o'r llythrennau yma? Beth am geisio sillafu geiriau syml gyda chymorth oedolyn e.e. mam, mop, tap ayyb. | Mae rhai anifeiliaid sy'n byw yn yr Arctig yn cysgu yn ystod y dydd ac yn hela am fwyd yn y nos. Ydych chi'n gallu creu llun o'r dydd a'r nos? Pa fath o bethau sy'n digwydd yn eich cartref chi yn y dydd ac yn y nos | Gydag oedolyn, ewch ati i greu bwyd i'r adar bach llwglyd sy'n ymweld a'r ardd. Bydd angen gosod y bwyd mewn man diogel. Beth am dynnu llun eich hunain yn gwneud a gosod y bwyd allan i'r adar – rhannwch rhain gyda ni ar HWB. |

## Gallaf wneud...

Heriau LEGO
Calendr Caredigrwydd
Llyfrau sain David Walliams
Newsround – darllen y newyddion diweddaraf
Science Investigations – STEM website stemsational.com
Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim
www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd UKTWINKLHELPS
Zumba Kids

Minecraft
Cymuned y Sgarlets- Sgiliau Mathemateg
Carol Vorderman — 'My Maths School'
Cip ar Fathemateg
SGILIAU — gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook
Orielodl – fideo cam wrth gam
Llifo'n Llawen – Yoga
Just Dance – 'Youtube'
Amser Stori Atebol – 'You Tube'
Amser stori – Llyfrgelloedd Sir Gâr

Dawnsio gyda Oti Mabuse
PBSkids.org - Gemau Darllen i blant
BBC Bitesize
Hour of Code
Gwefan TopMarks Mathemateg
Gwefan MathsFrame Mathemateg
mathsalamanders.com
Traed Bach Sionc (Busy Feet) – Youtube
Llyfrau Coeden Darllen Rydychen -HWB